

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

Llwybr Nadolig – Agoriad Swyddogol Dydd Sul

Bu disgyblion Blwyddyn 6 i gyd yn cyfrannu at Llwybr Nadolig Maes Gwenfrewi drwy greu cyweithiau lliwgar a fydd yn rhan o'r llwybr Nadoligaidd y Rhagfyr hwn.

Bydd yr Agoriad Swyddogol am 2 o'r gloch ar brynhawn dydd Sul y 3ydd o Ragfyr.

Maes Gwenfrewi : SY23 2EG

Pob dymuniad da i bawb gyda'r agoriad swyddogol, ac os na chewch gyfle i fynychu dydd Sul, cofiwch fod y llwybr ar agor gydol fis Rhagfyr.



Cardiau Nadolig – Neges bwysig : Angen talu ar ParentPay

Hoffwn eich hatgoffa fod yna eitem talu ar gyfer y pecynnau cardiau a nwyddau Nadolig yn aros amdanoch ar eich ParentPay. Hoffwn bwysleisio fod angen i chi dalu cyn derbyn y nwyddau. Mi ddylen nhw gyrraedd yr ysgol i'w dosbarthu i chi cyn hir.

Cyngerdd Nadolig – gwisgoedd

Mae'r ymarferion ar gyfer y Cyngerdd Nadolig yn mynd yn eu blaenau yn dda. Byddwn yn rhannu gwybodaeth am wisgoedd ddechrau wythnos nesaf a fydd yn rhoi wythnos lawn i chi i ddod o hyd i wisgoedd ar gyfer eich plentyn. Bydd rhai eitemau/gwisgoedd gyda ni, ond gwerthfawrognwch eich cydweithrediad a'ch cymorth i ddod o hyd i fwyafri o wisg eich plentyn.

Y Gymraeg

Dyma rannu manylion 'Penwythnos Cymraeg i'r Teulu' gyda chi.

Cynhelir y penwythnos ym mis Chwefror yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog.

Mae angen cofrestru erbyn Rhagfyr y 18fed.

Gweler y poster hwn am fwy o fanylion.



**Penwythnos
Cymraeg i'r Teulu**

Gwersi Cymraeg, gweithgareddau a hwyl i'r teulu cyfan yn Llangrannog.

- Pryd: 16-18/02/24
- Pa lefel: Pob lefel
- Cofrestru erbyn: 18/12/23

**Welsh for the
Family Weekend**

Welsh lessons, activities and fun for the whole family in Llangrannog.

- When: 16-18/02/24
- Which level: All levels
- Register by: 18/12/23

dygocymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

YSGOL GYMRAEG
Dyffwrdd Cymraeg

Carol yr Ŵyl

Bydd yr Ysgol Gymraeg yn ymddangos ar Prynawn Da S4C ar ddydd Llun yr 11eg o Ragfyr rhwng 2:00 a 3:00 o'r gloch.

Calendr Bywyd Gwyllt - £3 i'r ysgol am bob calendr a werthir

Mae Harriet McDevitt-Smith yn arlunydd, yn ffotograffydd ac yn frwd dros fywyd gwyllt, ac mae wedi'i lleoli yn Aberystwyth. Am nifer o flynyddoedd mi gynhyrchodd galendr i godi arian ar gyfer bywyd gwyllt. Mae ei rhifyn diweddaraf ar gael nawr, a gyda phob pryniant bydd £3 yn mynd i ymgyrch Gwyrddu Meysydd Chwarae yr Ysgol Gymraeg!

Mae'r calendr yn gwbl ddwyieithog, a phob mis yn cynnwys darlun swynol, lliw-llawn o fywyd gwyllt Ceredigion, wedi'i dynnu â llaw gan Harriet ei hun. Mae'r calendrau hyn yn gwneud anrhegion Nadolig delfrydol, ac maent wedi'u rhwymo â gwifren, mewn amlen gadarn ei hun, ac maent yn barod i hongian ar y wal.

Am fwy o wybodaeth, neu i brynu calendr a chefnogi'r ysgol ar yr un pryd, ewch i [wefan Treegeneration](http://wefan.Treegeneration)



Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol. **Y dyddiad pwysig arno ar hyn bryd yw'r Cyngerdd Nadolig – Rhagfyr 13^{eg}.**

Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf

Cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig ar ddydd Iau yr 21^{ain} o Ragfyr am 3:30yp.
Tymor y gwanwyn yn cychwyn ar ddydd Mawrth y 9^{fed} o Ionawr 2024.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Yn gywir,

Gareth L James

Pennaeth Dros Dro

01/12/2023

www.ysgolgybraeg.cymru

Scroll down for English version

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

Christmas Trail - Official Opening Sunday

Year 6 pupils all contributed to Maes Gwenfrewi Christmas Trail by creating colourful collaborations which will be part of the December Christmas trail. The Official Opening will be at 2 o'clock on Sunday the 3rd of December.

Maes Gwenfrewi : SY23 2EG

We wish everyone well with the opening of the trail. If you aren't able to attend on Sunday, the trail will be open throughout December.



Christmas cards - Important message: Payment needed on ParentPay

I would like to remind you that there is a payment item for the cards and Christmas goods waiting for you on your ParentPay. I would like to emphasise that you need to pay before receiving your order. They should arrive at the school to be distributed to you soon. For those who have paid already, thank you very much, you do not need to do anything else.

Christmas concert – costumes and outfits

The rehearsals for the Christmas Concert are coming along well. We will be sharing information about costumes at the beginning of next week which will give you a full week to find outfits for your child. We will have some items/outfits available from the school, but we appreciate your cooperation and help in providing a few items.

The Welsh language

As always, we are sharing information which may be of interest to you and your family.

Here are the details of 'Welsh for the Family Weekend'.

The weekend takes place in February at Llangrannog Urdd Centre.

Registration is required by December 18th.

See this poster for more details.

Penwythnos Cymraeg i'r Teulu

Gwersi Cymraeg, gweithgaraddau a hwyl i'r teulu cyfan yn Llangrannog.

- Pryd: 16-18/02/24
- Pa lefel: Pob lefel
- Cofrestru erbyn: 18/12/23

Welsh for the Family Weekend

Welsh lessons, activities and fun for the whole family in Llangrannog.

- When: 16-18/02/24
- Which level: All levels
- Register by: 18/12/23

Carol yr Ŵyl – Christmas Carol competition

Ysgol Gymraeg will appear on S4C's Prynawn Da on Monday the 11th of December between 2:00 and 3:00 o'clock.

Wildlife calendar fundraiser - £3 to Ysgol Gymraeg with each one sold

Harriet McDevitt-Smith is an artist, photographer and wildlife enthusiast, based in Aberystwyth. For a number of years she has produced a fundraising calendar to raise money for wildlife. Her latest edition is available now, and with each purchase £3 will go to Ysgol Gymraeg's Greening Playgrounds campaign!

The calendar is fully bilingual, and each month features a charming, full-colour illustration of Ceredigion wildlife, hand drawn by Harriet herself. These slim calendars make ideal Christmas presents, and are wire-o-bound, come in their own sturdy envelope, and are ready to hang on the wall.

For more information, or to purchase a calendar and support the School at the same time, please visit the [Treeneration website](#):



Half Term Calendar

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website. **The most important date currently is the Christmas Concert – December 13th.**

Important dates for next half term

We will be closing for the Christmas holidays on Thursday 21st December at 3:30pm.
Spring term will begin on Tuesday 9th January 2024.

If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.

Yours sincerely,
Gareth L James
Acting Headteacher
01/12/2023

www.ysgolgymraeg.cymru